Meithrin Gobaith
ESGOBAETH TYDDEWI
DIOCESE of ST DAVIDS
Growing Hope

Y CORFF LLYWODRAETHOL (CLl)

Beth yw'r Corff Llywodraethol?
Y Corff Llywodraethol yw corff deddfu goruchaf yr Eglwys yng Nghymru, sef yn fras 'senedd' yr Eglwys yng Nghymru, ac mae'n cymharu â Synod Cyffredinol Eglwys Loegr.

Y Corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am benderfyniadau sy'n effeithio ar Ffydd, Trefn ac Addoliad yr Eglwys. Mae ganddo bwerau i wneud rheoliadau hefyd ar gyfer rheolaeth gyffredinol a llywodraeth dda yr Eglwys, a'i heiddo a'i materion.

Pwy yw aelodau'r Corff Llywodraethol?
Mae'r Corff Llywodraethol yn cynnwys 143 o aelodau yn gyffredinol, a hynny ar ffurf tri 'thŷ':

- Mainc yr Esgobion
- Tŷ'r Clerigion, sy'n cynnwys rhai aelodau ex-officio a chlerigion wedi eu hethol gan aelodau clerigol pob Cynhadledd Esgobaethol yn y Dalaith
- Tŷ'r Lleygwyr, sy'n cynnwys rhai aelodau ex-officio ac aelodau etholedig gan aelodau lleyg pob Cynhadledd Esgobaethol yn y Dalaith. Mae'r broses etholiadol yn Esgobaeth Tyddewi yn sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod y tair archddiaconiaeth yn cael eu cynrychioli'n deg ac yn wastad yn ei haelodaeth leyg.

Pwy sy'n gymwys i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol?

- Clerigion yr Eglwys yng Nghymru dan 70 oed
- Cymunwyr lleyg dros 18 oed ac o dan 75 oed sydd naill ai'n byw neu sydd wedi byw am gyfnod o 12 mis yn un o blwyfi'r Eglwys yng Nghymru ac nad ydynt yn perthyn i gorff crefyddol nad yw ei hun mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru.
- Nid yw Clerigion sy'n gyflogedig yn llawn amser gan Gorff y Cynrychiolwyr neu Fwrdd Cyllid Esgobaethol nac unrhyw leygwr sy'n gyflogedig gan Gorff y Cynrychiolwyr neu Fwrdd Cyllid Esgobaethol yn gymwys i fod yn aelodau.

Beth yw'r cymwysterau i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol?
Nid oes gofynion ffurfiol y tu hwnt i'r cymhwysedd aelodaeth a restrir uchod, ond gan fod gorchwyl y Corff Llywodraethol yn cwmpasu agenda eang iawn yn amrywio o lywodraethu'r Eglwys, litwrgi ac athrawiaeth, i faterion yn ymwneud â phryder cymdeithasol, mae angen aelodau sydd ag amrywiaeth eang o ddiddordebau a phrofiad er mwyn i'r Corff Llywodraethu gynrychioli barn yr Eglwys yn ei chyfanrwydd, mae'n bwysig y gall aelodau adlewyrchu barn eu heglwysi lleol yn ogystal ag adrodd yn ôl iddyn nhw am waith y Corff Llywodraethol.

Swyddfa'r Esgobaeth, Abergwili, Caerfyrddin SA31 2JG / Diocesan Office, Abergwili, Carmarthen SA31 2JG
Ffôn/Phone: 01267 236145
Ebost/Email: elections.stdavids@churchinwales.org.uk

Beth yw'r ymrwymiad amser a ddisgwylir gan aelodau o'r Corff Llywodraethol?
Tair blynedd yw cyfnod y swydd ar gyfer aelodau etholedig, enwebedig a chyfetholedig, ond gallai'r cyfnod hwn gael ei adnewyddu.

Fel arfer mae'r Corff Llywodraethol yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, ym mis Ebrill ac ym mis Medi. Mae'r cyfarfodydd yn para am 24 awr fel arfer, o amser cinio diwrnod 1 i amser cinio diwrnod 2, felly mae gofyniad i aros dros nos.

Fel arfer, cynhelir cyfarfod mis Ebrill yng Nghaerdydd a chyfarfod mis Medi mewn lleoliad arall, fel Llanbedr Pont Steffan, ond mae'n bosibl y gellir defnyddio lleoliadau eraill.

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol hefyd yn aelodau o'r Gynhadledd Esgobaethol a gynhelir ar y dydd Sadwrn cyntaf ym mis Hydref, ac mae'r Gynhadledd Esgobaethol yn ymrwymiad ddiwrnod llawn arall.

A yw aelodau'r Corff Llywodraethol yn gallu hawlio treuliau?
Rôl wirfoddol yw aelodaeth o'r Corff Llywodraethol, fodd bynnag caniateir hawlio costau teithio rhesymol. Darperir prydau bwyd mewn cyfarfodydd, a threfnir llety dros nos a thelir amdano.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth am y Corff Llywodraethol?

- Ar wefan yr Eglwys yng Nghymru:
  https://www.churchinwales.org.uk/cy/about-us/governing-body/

- Yng Nghyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru:
  https://www.churchinwales.org.uk/cy/clergy-and-members/constitution/chapter-ii-governing-body/

- Drwy gysylltu â Mr John Richfield yn y Swyddfa Daleithiol yng Nghaerdydd:
  ☎ 02920 348200
  📧 johnrichfield@churchinwales.org.uk

Sut y gallaf ddod yn aelod o'r Corff Llywodraethol?
Cynhelir etholiadau i benodi aelodau etholedig lleyg a chlerigol o'r Corff Llywodraethol bob blwyddyn, a chynhelir pleidlais yn y Gynhadledd Esgobaethol ym mis Hydref. Rhaid i ymgeiswyr gael eu henwebu gan aelod o'r Gynhadledd Esgobaethol o'r un Archddiaconiaeth.